

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

NODER NEWID YN Y DYDDIAD

3ydd Mai, 2023.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **Nos Fawrth nesaf, 9fed Mai, 2023** yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol yn Festri Capel Hebron, Llangwinnadl.

1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

2. YMDDIHEURIADAU

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn gwybodaeth.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 3ydd EBRILL, 2023

Copi'n amgaeedig.

"A"

I drafod y materion a ganlyn yn codi o'r cofnodion.

(a) Eitem 115 Cadarnhau Cofnodion – cymal (a) Cronfa COFID

Adroddiad y Clarc ar brisiau a.y. ar gyfer y potiau blodau, hysbysfyrddau a'r lloches bws.

Copi'n amgaeedig.

"B"

(b) Eitem 117 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Ymateb Swyddog AHNE Llyn – copi'n amgaeedig.

"C"

(c) Eitem 120 – Archwilio'r Cyfrifon

Ymateb Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd.

(ch) Swydd y Clarc a'r Swyddfa

I adrodd ymhellach.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

I ystyried y cais a ganlyn ac unrhyw gais a ddaw i law cyn noson y Cyngor.

Tir ger Stad Congl Meinciau, Botwnnog, Pwllheli, LL53 8RA

Cais C22/0637/32LL - Cais llawn ar gyfer datblygiad yn cynnwys 8 tŷ fforddiadwy

ynghyd a gwaith cysylltiol ar safle eithrio gwledig (cam 1 o 2).

Amgaeaf gopi o lythyr y Rheolwr Cynllunio ac hefyd wybodaeth pellach atodwyd i'r

e-bost.

"CH"

6. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

(b) Croesffordd Penygroeslon – e-bost Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd.

"D"

(c) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd am fis Mai, 2023.

7. AWDURDOD I DALU

I awdurdodi unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

8. **DATGANIAD YSGRIFENEDIG: IECHYD DEMOCRATAIDD A DIGIDOL CYNGHORAU CYMUNED A THREFF**
Datganiad Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.
Copi'n amgaeedig. "DD"
9. **CWRS HYFFORDDIANT NABOD NATUR**
Gwybodaeth gan Un Llais Cymru – amgaeedig. "E"
Mae pecyn 'Nabod Natur - Eco-llythrennedd i Adfer Natur' ar gael a gellir anfon copi i chwi drwy e-bost os dymunwch.
10. **CYNIGION AR GYFER CYFAFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2023 UN LLAIS CYMRU**
Gwahoddiad i gyflwyno uchafswm o ddau gynnig i'w trafod yn y cyfarfod uchod ar 30ain Medi, 2023.
11. **CYRSIAU UN LLAIS CYMRU AM FIS MAI**
Gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael.

Yn gywir,


Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

Carys H. Evans
Dylan Parry Jones
Efan Thomas
Iwan J. Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Carys E. Williams
Siôn Williams

Gwenan Griffiths
Michael Strain
Glenys Williams